| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **21 Mawrth 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn sôn am Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2012/13 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I roi gwybod i'r Aelodau am adroddiad y Panel Dyfarnu ac i ystyried a oes unrhyw fater yn yr adroddiad y mae angen i'r Pwyllgor eu hystyried ymhellach.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru ac yn ystyried a oes materion ynddo sy'n haeddu ystyriaeth bellach gan y Pwyllgor.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Mae Panel Dyfarnu Cymru (y Panel) wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/2013. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o waith y Panel Dyfarnu ac yn cynnwys crynodeb o'r achosion a'r apeliadau y mae'r Panel wedi delio â nhw dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad llawn yn Atodiad 1.

4.2 Mae gan y Panel Dyfarnu ddwy swyddogaeth statudol. Y cyntaf yw ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos dros dro i ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn ymchwilio i honiadau bod aelod wedi methu cydymffurfio â Chod Ymddygiad yr awdurdod perthnasol. Mae'r Panel yn ystyried yr honiadau mwyaf difrifol o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau. Yr ail swyddogaeth statudol yw ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau lleol yn dilyn atgyfeiriad at y pwyllgorau hynny gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

4.3 Yn ystod 2012/13, derbyniodd y Panel pum atgyfeiriad newydd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chanddynt bedwar achos arall wedi eu dwyn ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol (2011/12). Cafodd

saith o'r achosion hyn wrandawiad yn ystod cyfnod yr adroddiad a cheir crynodeb ohonynt yn yr adroddiad. Fe welir yr Aelodau bod pum gwrandawiad wedi ei grynhoi yn yr adroddiad hwn. Roedd achos Cyngor Cymuned Coedpoeth yn cynnwys tair cwyn sy'n egluro pam bod yna pum crynodeb a saith atgyfeiriad.

4.4 Derbyniodd y Panel un apêl yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau lleol yn ystod y cyfnod ac mae crynodeb o'r achos hwn hefyd wedi ei nodi yn yr adroddiad.

4.5 Mae pob un o'r achosion hyn wedi canfod bod yr aelodau dan sylw, drwy eu gweithredoedd, wedi dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod a bod dau aelod wedi torri'r gofyniad i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill. Mae hyn yn gyson â'r themâu cyffredinol sy'n deillio o'r dadansoddiad a nodir yn adroddiad ynglŷn â’r gwahanol fathau o gamymddwyn sydd wedi eu hystyried gan y Panel ers 2002. Y tri maes mwyaf cyffredin o gamymddygiad yw:

Paragraff 6, dwyn anfri ar swydd aelod neu awdurdod,
Paragraff 4, methu dangos parch, gan roi sylw i gyfle cyfartal a bwlio,
Paragraffau 11 a 14, datgan cysylltiad

4.6 Bydd yr Aelodau hefyd yn nodi bod tri o'r materion hyn yn ymwneud â thorri trefnau cyfryngau cymdeithasol.

4.7 Mae un o'r achosion yn yr adroddiad yn ymwneud â chyn aelod o'r Cyngor hwn. Gall Aelodau ddod o hyd i’r adroddiad llawn ar y mater hwn ar wefan y Panel: http://wales.gov.uk/apwsubsite/APW-PDC/RegTrib/PreviousTrib/cllreckersley/?skip=1&lang=cy

4.8 Fel atodiad i’r adroddiad mae’r Panel wedi darparu crynodeb o'r cosbau a osodwyd gan y tribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd apêl rhwng mis Hydref 2002 a mis Mawrth 2013. Bydd yr Aelodau yn sylwi bod cosbau sylweddol wedi eu pennu gan y Panel yn ystod y cyfnod hwnnw, ac mai dim ond y lleiafrif o achosion sydd heb arwain at waharddiad nei ddiarddeliad.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Nid yw cynnwys yr adroddiad yn effeithio’n uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?

7.1 Nid yw'r adroddiad hwn yn gofyn am Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Nid yw'r mater hwn wedi ei adrodd nac wedi ei ymgynghori arno gan ei fod yn fater i'r Pwyllgor Safonau yn unig.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae adroddiad y Panel yn tynnu sylw at risgiau o ran ymddygiad aelodau. Mae'r Cyngor wedi darparu hyfforddiant sylweddol mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae'n galonogol bod Cynghorau Cymuned unigol wedi gofyn am hyfforddiant pwrpasol ar agweddau ar y Cod ac mae’r Swyddog Monitro yn parhau i ddarparu hyfforddiant o'r fath. Mae'r Cyngor hefyd wedi trefnu hyfforddiant i aelodau ar faterion Cydraddoldeb a'r defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol. Mae polisi a chanllawiau ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol ar fin cael eu llunio.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Adran 54 Deddf Llywodraeth Leol 2000